Annwyl Syr/ Fadam,

Sain Tathan – Cartref i'r Academi Dechnegol Amddiffyn a Pharc Awyrofod

Mae'n siŵr eich bod eisoes yn gwybod bod cynigion ar y gweill i ailddatblygu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan. Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfleoedd cyffrous i'r ardal drwy greu swyddi newydd a buddsoddiad yn yr economi leol a rhanbarthol.

Bydd y datblygiad hwn yn cynnwys Academi Dechnegol Amddiffyn newydd gyda thai a chyfleusterau cysylltiedig, ynghyd â Pharc Busnes Awyrofod. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol ar Fframwaith Datblygu Sain Tathan a gynhaliwyd gan Gyngor Bro Morgannwg (CBM) yn 2006, bu'r tîm datblygu mewn cyswllt cyson gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdod cynllunio Cyngor Bro Morgannwg i drafod y broses cynllunio.

Rydym nawr yn falch i gyhoeddi cylch newydd o ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhelir mewn tri chyfnod ar wahân cyn cyflwyno'r cais cynllunio arfaethedig yng ngwanwyn 2009. Cynhelir y cyntaf o'r ymgynghoriadau yng Ngorffennaf 2008 gyda chyfres o arddangosfeydd galw -i -mewn, felly estynnwn groeso cynnes iawn i chi. Dyma'r dyddiadau a'r lleoliadau:

Pryd	**Ble**
Dydd Mawrth 15 Gorffennaf, 16.00-20.30	*Y Man Ymgynnull, Eglwys y Methodistiaid Sain Tathan*
Dydd Mercher 16 Gorffennaf, 16.00-20.30	*Y Man Ymgynnull, Eglwys y Methodistiaid Sain Tathan*
Dydd Iau 17 Gorffennaf, 15.00-19.30	*Canolfan Hamdden Y Bont-faen*
Dydd Gwener 18 Gorffennaf, 15.00-19.30	*Neuadd Llantonian, Llanilltud Fawr*

Yn ogystal â'r arddangosfeydd, cynhelir cyfres o weithdai cyhoeddus yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mi fyddwn yn defnyddio'r arddangosfeydd cyntaf i nodi'r themâu ar gyfer y gweithdai, felly mae'n bwysig eich bod yn mynychu i gynnig eich sylwadau.

Bydd aelodau o dîm prosiect Sain Tathan wrth law i drafod unrhyw gwestiynau sydd gennych. Hefyd yn bresennol bydd cynrychiolwyr o Metrix, cynigwyr llwyddiannus a fydd yn ailddatblygu'r Academi Dechnegol Amddiffyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n hyrwyddo'r Parc Busnes Awyrofod ac yn darparu'r seilwaith newydd ar gyfer y datblygiad cyfan, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Os na fedrwch chi fynychu'r arddangosfeydd, byddem yn falch iawn i ddanfon y deunyddiau perthnasol atoch yn uniongyrchol. Rydym hefyd yn y broses o ddatblygu cylchlythyr a gwefan bwrpasol a fydd yn sicrhau eich bod yn derbyn y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r datblygiadau.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 0845 618 0016. Gallwch hefyd ddanfon e-bost atom: enquiries@st-athanconsultation.co.uk

Mae eich sylwadau yn bwysig iawn a gobeithiwn y byddwch yn medru mynychu un o'r arddangosfeydd.

Yn gywir,

Charles Barrington
Cadeirydd
Metrix UK

David Swallow -
Cyfarwyddwr Prosiect Sain Tathan,
Llywodraeth Cynulliad Cymru